Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Ceredigion
# Campws Llanbadarn
# Llanbadarn Fawr
# Aberystwyth
# SY23 3BP

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/05/2013**

## Cyd-destun

Coleg addysg bellach dwyieithog a gwledig yw Coleg Ceredigion sydd â champysau yn Aberystwyth ac Aberteifi. Mae ganddo drosiant blynyddol o ryw £5 miliwn. Y prif ddalgylch yw sir Ceredigion, ond mae dysgwyr yn teithio i'r coleg o Bowys, Sir Benfro, de Gwynedd a Sir Gaerfyrddin hefyd. Ceredigion sydd â'r gyfradd cyfranogi isaf ond un ar gyfer addysg bellach yng Nghymru.

Yn 2010-2011, roedd 645 o ddysgwyr amser llawn yn y coleg, 53% ohonynt yn fenywod. Roedd 1,510 o ddysgwyr rhan-amser, 57% ohonynt yn fenywod. Mae dros 70% o ddysgwyr amser llawn rhwng 16 a 24 oed. Yn 2010-2011, cwblhaodd tua 370 o ddysgwyr amser llawn a 310 o ddysgwyr rhan-amser rhyw elfen o'u rhaglenni yn ddwyieithog. Mae'r coleg yn darparu rhaglenni o Lefel Mynediad i Lefel 3, gyda nifer fach ar Lefel 4. Mae'r niferoedd uchaf o gofrestriadau ar raglenni Lefel 2 a Lefel 3.

Poblogaeth Ceredigion yw'r bedwaredd isaf o'r 22 awdurdod yng Nghymru. Er bod poblogaeth Ceredigion wedi gostwng dros y deng mlynedd diwethaf, disgwylir iddi gynyddu dros y deng mlynedd nesaf. Mae tua 23% o'r boblogaeth o oedran ymddeol, sy'n uwch na'r 21% ar gyfer Cymru. Yn ôl cyfrifiad 2011, mae tua 47% o boblogaeth Ceredigion yn medru'r Gymraeg, sef y pedwerydd uchaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae hyn wedi gostwng o 52% yng nghyfrifiad 2001. Ceredigion sydd â'r gyfradd disgwyliad oes uchaf o bob un o'r 22 awdurdod yng Nghymru. Mae llecynnau bach o amddifadedd yn y sir o amgylch Aberteifi ac Aberystwyth. Fodd bynnag, mae llai o ardaloedd amddifadedd lluosog yng Ngheredigion nag ardaloedd eraill yng Nghymru. Nid yw unrhyw un o'r ardaloedd yn dod o dan y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Yn 2010, Ceredigion sydd â'r gyfran uchaf o oedolion oedran gweithio sy'n gymwys i o leiaf Lefel 2 o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Caiff y mwyafrif ohonynt eu cyflogi ym maes iechyd, twristiaeth a gweinyddu cyhoeddus. Caiff Ceredigion ei nodweddu gan ganran fwy o'r boblogaeth oedran gweithio sy'n hunangyflogedig. Mae tuag 20% o boblogaeth Ceredigion wedi ei dosbarthu yn anweithredol yn economaidd, ac mae'n agos at y ganran ar gyfer Cymru.

# Crynodeb

| Perfformiad presennol y darparwr | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r darparwr | Da |

## Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- bod cyfraddau llwyddo ar gyfer y rhan fwyaf o raglenni yn gwella yn unol â chyfraddau llwyddo colegau eraill yng Nghymru, ond maent yn parhau islaw'r cyfartaleddau hynny mewn nifer fach o feysydd rhaglen;
- bod y coleg yn perfformio'n ddigonol o gymharu â cholegau eraill yng Nghymru;
- bod cyfraddau llwyddo ar gyfer Medrau Allweddol / Medrau Hanfodol yn gwella;
- bod dysgwyr yn mwynhau eu dysgu ac yn teimlo'n ddiogel yn y coleg;
- bod dysgwyr yn teimlo bod pobl yn gwrando ar eu safbwyntiau a bod camau'n cael eu cymryd pan fyddant yn lleisio eu barn;
- bod ansawdd yr addysgu yn ddigonol ar y cyfan, ond yn dda mewn llawer o feysydd dysgu;
- bod ansawdd gofal, arweiniad a chymorth ar gyfer dysgwyr yn dda; a
- bod dysgwyr yn gallu defnyddio adnoddau o ansawdd da i'w helpu â'u dysgu.

## Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod gan y coleg nodau strategol clir ac mae'n cyfleu'r rhain yn dda i staff a rhanddeiliaid;
- bod y corff llywodraethol yn rhoi cymorth da ac yn herio'r uwch dîm rheoli yn dda i wella safonau;
- bod yr uwch dîm rheoli wedi gwneud cynnydd da wrth roi'r argymhellion o arolygiadau blaenorol Estyn ar waith;
- bod gan y coleg hanes da o ran rheoli newid a nodi meysydd y mae angen eu gwella;
- bod y coleg yn rhoi blaenoriaeth uchel i reolaeth ariannol gadarn ac yn defnyddio'i adnoddau yn dda er budd dysgwyr; a
- bod gan y coleg strategaeth dda i nodi meysydd sy'n tanberfformio a bod ei weithredoedd yn dechrau ysgogi gwelliannau.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau yn yr holl feysydd dysgu yn unol â chynlluniau strategol a gweithredol a lleihau'r amrywiad mewn cyrhaeddiad rhwng meysydd dysgu

A2 Gwella addysgu a dysgu i wneud yn siŵr bod yr holl ddysgwyr yn cael profiad dysgu o ansawdd uchel

A3 Darparu mwy o gyflymder a her ym mhob gwers a gwneud yn siŵr bod yr holl ddysgwyr yn cael eu herio'n briodol

A4 Gwneud yn siŵr bod gan yr holl ddysgwyr dargedau llythrennedd a rhifedd byr a chraff a dealltwriaeth glir o'r medrau penodol y mae angen iddynt eu datblygu

A5 Datblygu dull strategol cadarn o ymgysylltu â busnesau a sefydliadau lleol a mesur eu heffaith

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd arolygydd cyswllt ôl-16 Estyn yn monitro'r cynnydd a wneir gan y coleg ar ôl yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae cyfraddau cyffredinol y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau wedi dangos tuedd ar i fyny dros y tair blynedd diwethaf. Mae data nas gwiriwyd gan y coleg ar gyfer 2011-2012 yn dangos bod y duedd hon wedi parhau. Mae'r cyfraddau llwyddo cyffredinol ar gyfer yr holl gyrsiau yn 2010-2011 yn agos at y cyfartaleddau ar gyfer colegau eraill yng Nghymru. Mae cyfraddau cyrhaeddiad yn amrywio'n eang ar draws meysydd dysgu. Yn 2010-2011, roeddent yn dda mewn saith maes dysgu ac yn ddigonol neu'n anfoddhaol yn yr 11 maes dysgu arall. Mae cyfraddau cyrhaeddiad mewn Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal wedi bod yn gyson dda dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig a Gweinyddu Busnes a'r Gyfraith wedi cyflawni'r un lefelau uchel o gyrhaeddiad.

Mae cyfraddau llwyddo ar gyfer dysgwyr ar y nifer fach o gyrsiau A2 ar gyfer 2011-2012 yn amrywio o ddigonol i ragorol. Cyflawnodd pob dysgwr mewn Celf a Dylunio, ond nid yw dysgwyr yn cyflawni cystal mewn Seicoleg neu Gymdeithaseg. Mae cyfraddau llwyddo ar gyrsiau UG yn ddigonol ar y cyfan ac yn gwella.

Mae cyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer Medrau Allweddol/Medrau Hanfodol yn 2010-2011 yn ddigonol ar y cyfan. Maent wedi dangos gwelliant bach o gymharu â blynyddoedd blaenorol, yn enwedig mewn Cyfathrebu a Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad eich Hun, a Gweithio gydag Eraill. Mae cyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer cymwysterau Medrau Allweddol / Medrau Hanfodol ar Lefel 1 yn ddigonol, ond yn anfoddhaol ar Lefelau 2 a 3. Mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni graddau uwch ar gymwysterau BTEC yn dda ar y cyfan gyda thros 60% o ddysgwyr yn cyflawni graddau Anrhydedd neu Deilyngdod.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da neu ddigonol yn y dosbarthiadau a arsylwyd. Mae'r cynnydd a wna dysgwyr yn anghyson ar draws meysydd dysgu. Yn yr achosion gorau, mae dysgwyr yn ymgysylltu'n llawn yn y sesiynau ac yn cyfrannu'n dda at yr holl weithgareddau. Maent yn ateb cwestiynau yn hyderus ac yn defnyddio terminoleg yn briodol. Mewn tua hanner o'r dosbarthiadau a arsylwyd, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd araf ac yn dibynnu ar yr athro gormod i gyfeirio eu dysgu a'u helpu â thasgau cyffredin. Maent yn aml yn cwblhau tasgau diymdrech nad ydynt wedi eu cyfyngu gan amser. Mae llawer o ddysgwyr yn amharod i gymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth. Mae hyn yn cyfyngu ar eu cynnydd a'u hyder wrth ddatblygu eu medrau llafaredd.

Mae llawer o ddysgwyr yn mynegi eu hunain yn dda. Defnyddiant eirfa dechnegol yn gywir ac yn rhugl. Fodd bynnag, prin yw'r dysgwyr sy'n defnyddio eu medrau llafaredd yn ddigon da mewn gwersi, ac mae hyn yn cyfyngu ar ddatblygu medrau fel rhoi barn a chefnogi barn, a datblygu ac ymestyn dadleuon. Mae llawer o ddysgwyr yn ysgrifennu'n glir at ystod o ddibenion ac yn cyflwyno eu gwaith yn dda. Fodd bynnag, nid oes digon o ddysgwyr yn datblygu eu medrau sillafu, atalnodi a

gramadeg yn gyson trwy gydol eu cwrs. Nid yw llawer o ddysgwyr yn datblygu'r medrau ysgrifennu lefel uwch, estynedig. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio ystod o strategaethau darllen, technegau brasddarllen a sganio yn dda i ddod o hyd i wybodaeth mewn testunau. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n defnyddio'r medrau darllen uwch fel llunio casgliad a rhagfynegi yn gywir neu'n rhugl yn gyson. Mae mwyafrif o ddysgwyr sy'n ysgrifennu trwy gyfrwng y Gymraeg yn meddu ar fedrau llythrennedd da ac yn ysgrifennu'n gywir. Mae dysgwyr mewn meysydd galwedigaethol yn defnyddio eu medrau rhifedd yn dda yng nghyd-destun eu cyrsiau.

Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau Cymraeg neu ddwyieithog, fel gofal plant ac arlwyo, yn defnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg yn dda. Maent yn cyfrannu'n dda yn y dosbarth ac yn trafod eu gwaith yn hyderus yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae eu medrau ysgrifennu yn dda ar y cyfan. Mae dysgwyr ar bob cwrs yn cwblhau ystod o unedau Agored Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys unedau galwedigaethol penodol, fel Rhifedd Gyda Phlant Bach a Defnyddio Dwy Iaith Wrth Weithio, ac unedau cyffredinol, fel Cyflwyniad i'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant a Blas ar y Gymraeg. Fodd bynnag, nifer fach o ddysgwyr yn unig sy'n cwblhau eu prif gymwysterau yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.

**Lles: Da**

At ei gilydd, mae dysgwyr yn gadarnhaol ynglŷn â dod i'r coleg, maent yn cymryd rhan yn dda ac yn mwynhau eu gwersi. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gadarnhaol ynglŷn â'r cynnydd y maent wedi'i wneud ers dechrau'r cwrs, ac mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo eu bod wedi magu hyder. Mae pob dysgwr yn llofnodi cytundeb dysgu'r myfyriwr ac yn teimlo ei fod yn rhoi ffiniau clir iddynt o ran ymddygiadau priodol a thargedau presenoldeb. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddysgwyr yn y sesiynau a arsylwyd yn dda, ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos lefelau uchel o barch ar y ddwy ochr.

Mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac yn elwa ar ei awyrgylch cyfeillgar a chynhwysol. Ni chododd dysgwyr unrhyw bryderon mewn perthynas â bwlio ac aflonyddwch, ac mae bron pob un o'r dysgwyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r cymorth a gânt gan staff y coleg a chyfoedion.

Roedd cyfraddau presenoldeb yn 2011-2012 yn dda, sef 86%, ac maent yn dangos ychydig o gynnydd o gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol. Roedd y gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad yn adlewyrchu'r canfyddiadau hyn, ac yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyrraedd eu dosbarthiadau yn brydlon.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan yn dda mewn gweithgareddau cyfoethogi yn eu maes cwricwlwm. Mae dysgwyr yn y cyfryngau, busnes ac arlwyo yn elwa ar nifer o wibdeithiau ac ymweliadau, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Mae dysgwyr yn mwynhau datblygu eu medrau rhyngbersonol trwy ddigwyddiadau ar draws y coleg a digwyddiadau elusennol. Fodd bynnag, mae llawer o ddysgwyr yn teimlo nad oes digon o gyfleoedd i ymgymryd â'r math hwn o weithgarwch.

Mae gan y coleg strategaeth glir ar gyfer ymglymiad dysgwyr, ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn lleisio eu barnau yn effeithiol trwy holiaduron, grwpiau ffocws, cyfarfodydd cynrychiolwyr cwrs a chynrychiolaeth gan ddysgwyr ar y corff llywodraethol. Mae staff y coleg wedi mynd i'r afael â mwyafrif y materion a godir gan gynrychiolwyr cyrsiau yn llwyddiannus. Mae dysgwyr ar gyrsiau'r cyfryngau wedi datblygu strategaeth farchnata, sydd wedi golygu bod nifer gynyddol o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ychwanegol, fel y 'diwrnod wal yn siarad', lle cymerodd dysgwyr ran mewn trafodaethau am faterion cyfoes o ddiddordeb i bobl ifanc. Caiff pob dysgwr ei annog i ysgrifennu Addunedau Dysgwyr, sydd wedi cael eu rhoi ar hysbysfyrddau o amgylch y coleg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r adborth uniongyrchol a gânt gan y pennaeth ar yr addunedau a wnânt. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu cymhelliant a'u hymrwymiad i ddysgu.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae gan y coleg ystod briodol o gyrsiau o Lefel Mynediad i Lefel 3 sy'n bodloni anghenion y dysgwyr a'r gymuned yn dda. Mae'r coleg yn cynllunio cyrsiau yn dda i sicrhau bod dysgwyr yn gallu mynd ymlaen yn hawdd i lefelau dysgu uwch. Mae cynllunio cyrsiau yn rhoi ystyriaeth addas i broffil demograffig o'r ardal leol i sicrhau bod cyrsiau'n parhau i fod yn berthnasol ac mae rhai cyrsiau yn denu dysgwyr hŷn i fynd yn ôl i astudio. Mae'r cwricwlwm yn cynnig ystod o gyrsiau galwedigaethol gan gynnwys dylunio dodrefn a gofal plant cyfrwng Cymraeg. Caiff y nifer fach o gyrsiau Safon Uwch eu cynllunio'n effeithiol trwy'r bartneriaeth 14 i 19 i ychwanegu at y pynciau a gynigir mewn ysgolion uwchradd lleol. Mae strategaethau addas ar waith i adolygu'r cwricwlwm yn rheolaidd, ac mae'r coleg yn rhoi ystyriaeth briodol i safbwyntiau dysgwyr a chyflogwyr.

Mae gormod o ddibyniaeth ar unedau credyd ar gyfer cymwysterau ychwanegol, ac ni chaiff dysgwyr ddigon o gyfleoedd i ddilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC). Mae hyn yn cyfyngu ar ddysgu mewn meysydd fel medrau datrys problemau, ymchwilio ac archwilio.

Mae'r coleg yn gweithio'n dda gyda chyflogwyr i roi cyfleoedd profiad gwaith perthnasol i'r dysgwyr ar y cyrsiau prin lle mae hyn yn ofyniad. Mae'r coleg yn sicrhau bod dysgwyr ar gyrsiau eraill yn gallu cymryd rhan mewn ystod amrywiol o ddigwyddiadau yn gysylltiedig â gwaith, fel ymweliadau gan fusnesau micro lleol a diwrnodau menter. Fodd bynnag, nid yw'r coleg yn cynllunio'n ddigon da ar lefel strategol ar gyfer profiad gwaith i bob dysgwr amser llawn.

Caiff bron yr holl ddysgwyr asesiad cychwynnol priodol o'u medrau llythrennedd a rhifedd ar ddechrau eu cwrs. Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o opsiynau ar gyfer datblygu medrau, gan gynnwys deunyddiau ar-lein a dosbarthiadau medrau ar wahân. Fodd bynnag, mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau yn anghyson o fewn y meysydd dysgu a rhyngddynt. Fodd bynnag, mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau yn anghyson o fewn meysydd dysgu a rhyngddynt. Nid yw'r canllaw marcio ar draws y coleg bob amser yn briodol ar gyfer dysgwyr ar lefelau gallu is. Ni ddefnyddir canlyniadau asesiadau diagnostig yn ddigon cyson i sicrhau bod gan bob dysgwr dargedau llythrennedd a rhifedd byr a chraff a dealltwriaeth glir o'r medrau penodol sydd eu hangen arnynt i ddatblygu.

Mae'r coleg wedi gwneud cynnydd sylweddol yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf i gynyddu'r cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg mamiaith allu manteisio ar ddarpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Mae ymgorffori diwylliant Cymru yn nodwedd gref yn y coleg erbyn hyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn Aberteifi yn astudio uned gredyd trwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'u cwrs. Mae'r cymwysterau hyn yn berthnasol i lefel medrau iaith y dysgwyr ac yn cysylltu'n dda â chyd-destun eu prif gwrs. Mae'r coleg wrthi'n datblygu'r arfer hon ar draws campws Aberystwyth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni chaiff siaradwyr Cymraeg mamiaith eu hannog digon i gwblhau eu hasesiad cychwynnol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac ychydig iawn o ddysgwyr sydd â thargedau i wella eu medrau llythrennedd Cymraeg.

Mae'r coleg yn gwneud defnydd da iawn o gyfleoedd i hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDFE) trwy brosiectau penodol. Mae llawer o'r rhain yn cynnwys cysylltiad â'r gymuned leol. Caiff dysgwyr brofiad gwerthfawr trwy fentrau fel 'siediau i siediau' ('sheds for sheds') gyda'r pwyllgor rhandiroedd lleol ac adfer cadeiriau ar gyfer canolfan gymunedol leol. Fodd bynnag, nid yw ADCDFE wedi cael ei chynllunio'n strategol nac yn cael ei hymgorffori'n ddigon cyson mewn arfer addysgu ym mhob maes dysgu.

**Addysgu: Digonol**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol. Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu a dysgu, gan gynnwys gweithgareddau unigol, grŵp bach a grŵp cyfan. Mae sesiynau yn aml wedi eu strwythuro'n dda gyda chynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi priodol. Yn y mwyafrif o sesiynau, mae athrawon yn dechrau pob sesiwn gan alw i gof y sesiwn flaenorol mewn modd defnyddiol cyn cyflwyno amcanion newydd i ddysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod o dechnegau holi ac ateb, ond yn aml byddant yn ateb yn rhy gyflym os yw'r dysgwr yn cymryd yn rhy hir i ateb. Mae athrawon yn aml yn rhy barod i dderbyn atebion byr i'w cwestiynau ac nid ydynt yn gwneud digon o ddefnydd o gwestiynau a thrafodaeth eang.

Mae athrawon yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac mae'r berthynas rhwng athrawon a dysgwyr yn gyson dda. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn gosod disgwyliad digon uchel ar gyfer pob un o'u dysgwyr. Mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o TGCh i gyflwyno sesiynau dysgu.

Mewn gormod o sesiynau, mae rhediad y cyflwyno gan athrawon yn rhy araf. Mewn lleiafrif o sesiynau, nid yw athrawon yn cynnig digon o her i ddysgwyr, yn enwedig y dysgwyr mwy abl yn y grŵp. Mewn gormod o sesiynau a arsylwyd, mae gormod o ddibyniaeth ar fewnbwn athrawon ac nid yw dysgwyr yn cyfrannu digon nac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu.

Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes a da, a phrofiad galwedigaethol da. Pan fo'n briodol, mae athrawon yn defnyddio'r profiad hwn yn dda i helpu dysgwyr i ddeall pwysigrwydd datblygu eu medrau a'u gwybodaeth alwedigaethol. Mae gan athrawon ddata manwl ar yr asesiad cychwynnol o lythrennedd a rhifedd dysgwyr. Mewn gormod o achosion, nid yw athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i gynllunio sesiynau a gwahaniaethu rhwng anghenion dysgwyr.

Mae athrawon yn rhoi adborth llafar priodol yn y rhan fwyaf o sesiynau. Defnyddiant dechnegau olrhain effeithiol i fonitro cynnydd dysgwyr. Mae athrawon yn dechrau defnyddio’r cynllun marcio a sefydlwyd ar draws y coleg yn ddiweddar ar gyfer llythrennedd Cymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, mae anghysondebau o ran defnyddio’r cynllun marcio ar draws ac o fewn meysydd dysgu. Mae athrawon yn dechrau rhoi adborth ysgrifenedig ffurfiol estynedig da ar waith dysgwyr i sicrhau bod dysgwyr yn gwybod beth mae’n rhaid iddynt ei wneud i wneud cynnydd pellach.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

At ei gilydd, mae’r coleg yn rhoi gofal, cymorth ac arweiniad da i ddysgwyr cyn iddynt ddechrau yn y coleg, yn ystod y broses ymgeisio ac ar eu cyrsiau. Mae’n darparu ystod o weithgareddau trwy sesiynau tiwtorial a digwyddiadau arbennig i hyrwyddo byw yn iach a lles. Mae’n gwneud yn siŵr bod opsiynau bwyta’n iach yn ffreuturau’r coleg ac mae wedi dechrau monitro’r bwydydd sydd ar gael yn y ffreuturau eleni. Cyfyngedig yw’r digwyddiadau ar draws y coleg i gynnwys dysgwyr mewn gweithgareddau chwaraeon neu hamdden.

Caiff dysgwyr arweiniad da a diduedd gan y coleg i’w galluogi i wneud dewisiadau gwybodus am eu dysgu a’u dewis o gyrsiau. Tra byddant yn y coleg, caiff dysgwyr ragor o wybodaeth gan staff cymorth, cwnselwyr, mentoriaid ac asiantaethau allanol sy’n eu helpu i wneud cynnydd ar eu cyrsiau. Caiff dysgwyr wybodaeth dda am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt o lawlyfr cymorth y coleg, taflenni cyrsiau, prosbectysau a gwefan y coleg. Mae sesiynau ymsefydlu cychwynnol yn effeithiol wrth roi gwybod i ddysgwyr am ddisgwyliadau a pholisïau’r coleg. Mae’r rhain yn cynnwys arweiniad ar fwlio, gwahaniaethu, ymddygiad annerbyniol a diogelu a’r camau y dylid eu cymryd os yw dysgwyr yn wynebu unrhyw anawsterau yn y meysydd hyn. Caiff pob dysgwr y nodwyd bod ganddo anghenion iechyd neu anghenion dysgu ychwanegol ei wahodd i fynychu cyfweliad cymorth. Mae hyn yn gwneud yn siŵr bod y coleg yn deall ei anghenion a bod y dysgwr yn ymwybodol o’r ystod o wasanaethau cymorth sydd ar gael iddo. Mae bron pob un o’r dysgwyr y nodwyd bod angen cymorth dysgu arnynt yn manteisio ar rai o’r gwasanaethau sydd ar gael yn y coleg.

Gall pob dysgwr gael o leiaf un cyfweliad personol gydag ymgynghorydd gyrfaoedd bob blwyddyn. Mae’r coleg yn rhoi cymorth da i ddysgwyr sy’n gwneud cais am gyrsiau addysg uwch. Mae’r rhain yn cynnwys cymorth â cheisiadau a datganiadau personol, cyfweliadau ffug ac ymweliadau gan ymgynghorwyr o ddarparwyr addysg uwch.

Rhoddir cymorth da i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff y coleg yn gweithio’n agos ag ysgolion y mae eu dysgwyr yn dymuno mynychu’r coleg. Maent yn nodi anghenion cymorth ar y cyd yn gynnar yn y broses ac yn rhoi lefel uchel o gymorth a chefnogaeth trwy gydol y broses ymgeisio, hyd at, a chan gynnwys cofrestru ac ymsefydlu. Mae hyn yn gwneud yn siŵr bod y pontio o’r ysgol i’r coleg mor ddi-dor ag y bo modd.

Mae’r coleg wedi gwneud trefniadau sy’n bodloni gofynion diogelu ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r coleg yn darparu amgylchedd croesawgar a chynhwysol ar gyfer ei ddysgwyr. Mae'n hyrwyddo ethos o gydraddoldeb a pharch at amrywiaeth yn dda. Mae posteri o amgylch y coleg yn codi ymwybyddiaeth am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae gan y coleg Gynllun Cydraddoldeb Strategol ac ystod o bolisïau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, sy'n cael eu monitro'n dda gan y Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae grwpiau ffocws dysgwyr yn cyfrannu at waith y pwyllgor, er nad oes gan y pwyllgor ei hun yr un cynrychiolydd dysgwyr.

Dywed bron pob un o'r dysgwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y coleg. Mae dysgwyr o lwybrau mynediad i addysg bellach nad ydynt yn rhai traddodiadol, fel y rhai sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol, yn cael arweiniad a chymorth da gan diwtoriaid a chyfoedion. Pan nodir achosion o ymddygiad gwahaniaethol gan ddysgwyr, mae staff yn eu herio'n gadarn ac yn cymryd camau priodol.

Mae'r rhan fwyaf o adeiladau ar draws dau safle'r coleg yn briodol ac yn darparu amgylchedd dysgu croesawgar, yn enwedig yn y cyfleusterau diweddaraf a adeiladwyd, fel y cyfleuster gwallt a harddwch yn Aberteifi. Mae meysydd dysgu mewn cyflwr da ar y cyfan ac maent wedi eu dodrefnu'n dda, eu goleuo'n dda ac wedi eu haddurno'n dda. Mae arddangosiadau wal dwyieithog ac ystod briodol o bosteri ac arddangosiadau o waith dysgwyr yn y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o weithdai yn cynnwys offer da ac yn addas at eu diben. Nid yw rhai adeiladau, yn enwedig ar gampws Aberteifi, yn cyrraedd yr un safon uchel â mannau eraill yn y coleg.

Mae cyfleusterau TGCh ac isadeiledd yn dda ar y cyfan, er bod angen eu huwchraddio mewn rhai meysydd.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r pwyllgor gweithredol wedi datblygu cyfeiriad strategol clir ar gyfer y coleg gyda nodau allweddol priodol a heriol. Mae rolau a chyfrifoldebau yn glir ac mae rheolwyr yn deall eu cyfrifoldebau'n dda. Mae'r coleg yn rhoi blaenoriaeth uchel i reoli ei gyllid yn effeithiol er mwyn cyflwyno cwricwlwm sy'n bodloni anghenion ei gymuned. Mae aelodau o'r pwyllgor gweithredol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i wneud yn siŵr bod cyfeiriad strategol y coleg yn canolbwyntio'n glir ar reolaeth ariannol gadarn a gwella profiadau dysgwyr.

Penodwyd y pennaeth presennol ac ailstrwythurwyd yr uwch dîm rheoli yn 2011. Mewn cyfnod cymharol fyr, maent wedi gwella diwylliant ac ethos y coleg ac mae cyfathrebu gwell rhwng yr uwch dîm, y staff a'r rhanddeiliaid.

Mae gweledigaeth y coleg wedi'i hamlinellu'n glir yn ei gynllun strategol. Mae ei gynllun gweithredol yn cysylltu ei werthoedd, ei nodau a'i amcanion yn glir â dangosyddion perfformiad allweddol y coleg. Caiff y cynllun gweithredol ei fonitro trwy gydol y flwyddyn, ac fe gaiff uwch reolwyr ddiweddariadau cynnydd rheolaidd a manwl ar gynnydd y coleg tuag at fodloni ei dargedau.

Yn sgil bod yn goleg bach, mae uwch reolwyr a rheolwyr canol yn ymgymryd ag ystod o rolau a swyddogaethau strategol a gweithredol er mwyn cyflawni nodau ac amcanion strategol y coleg. Mae'r pwyllgor gweithredol a rheolwyr canol yn blaenoriaethu eu gwaith yn effeithiol ac yn canolbwyntio'n briodol ar fusnes craidd y coleg.

Mae'r coleg wedi cyflwyno meddalwedd a systemau cynllunio ariannol gwell yn ddiweddar sy'n rhoi trosolwg gwell o gostau cyrsiau. Mae'r coleg yn cynhyrchu gwarged ariannol bach yn flynyddol ac yn defnyddio'r gwarged yn dda i wella adeiladau ac adnoddau ar gyfer dysgu yn y coleg.

Cryfhawyd system rheoli perfformiad blynyddol y coleg yn ddiweddar, ac mae'n cynnwys pob aelod o staff amser llawn. Eir i'r afael â thanberfformio trwy Raglen Cymorth i Wella Canlyniadau (RISP) y coleg. Pan nodir tanberfformio, caiff staff eu cefnogi'n dda ac fe gaiff eu cynnydd ei fonitro'n rheolaidd.

Mae'r corff llywodraethol yn deall ei rolau a'i gyfrifoldebau'n dda. Mae'n rhoi lefelau da o gymorth i'r pennaeth a'r uwch reolwyr wrth osod cyfeiriad strategol ar gyfer y coleg. Mae llywodraethwyr yn herio'r pennaeth yn dda o ran perfformiad y coleg, gan gynnwys cyllid, ystadau a'r ddarpariaeth Gymraeg.

Rhoddir ystod gynhwysfawr a manwl o adroddiadau yn ymwneud â pherfformiad y coleg i lywodraethwyr. Fodd bynnag, nid oes digon o her na thrafodaeth yn ymwneud â chyrsiau sy'n tanberfformio a'r amrywiad mewn cyfraddau llwyddo rhwng meysydd dysgu.

Mae cydweithio da â sefydliadau eraill ac mae'r Strategaeth Partneriaeth yn un o'r gyrwyr allweddol ar gyfer y coleg yng nghyd-destun agenda Trawsnewid Llywodraeth Cymru. Mae'r coleg wedi ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Ar lefel leol, nhw yw aelod arweiniol y bartneriaeth 14-19.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y coleg weithdrefnau clir a defnyddiol i fesur pob agwedd ar safonau ac ansawdd. Mae ganddo gylch ansawdd sefydledig ac mae rolau pob aelod o staff wrth gyfrannu at hunanasesu yn glir. Mae'r holl dimau cyrsiau yn adolygu cyrsiau yn rheolaidd ac yn defnyddio'r barnau yn yr adolygiadau hyn i lunio cynlluniau gwella cyrsiau. Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn yn ddefnyddiol wrth nodi'r camau y mae angen i'r tîm eu cymryd. Mae data ar berfformiad ar gyrsiau yn ddibynadwy ac ar gael yn hawdd i bob aelod o staff. Fodd bynnag, mae lleiafrif o adolygiadau cyrsiau yn rhy ddisgrifiadol ac nid ydynt yn cynnwys dadansoddiad beirniadol o'r ystod lawn o ffactorau a allai gyfrannu at danberfformio. Maent yn cynnwys ffocws cryf ar ddata, ond nid ydynt bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar faterion fel addysgu, dysgu neu asesu.

Mae gan y coleg ystod dda o strategaethau i gasglu safbwyntiau dysgwyr, fel holiaduron ysgrifenedig rheolaidd a grwpiau ffocws. Mae rheolwyr y coleg yn defnyddio'r dystiolaeth o'r rhain yn dda i ysgogi gwelliannau mewn llawer o agweddau ar wasanaethau'r coleg.

Yn ychwanegol i'r broses flynyddol ar gyfer adolygu cyrsiau, mae'r coleg yn cynnal rhaglen reolaidd o arolygiadau mewnol cynhwysfawr sy'n cynnwys yr holl gyrsiau mewn cylch dwy flynedd. Mae'r dystiolaeth a gesglir yn yr adolygiadau hyn yn cynnwys arsylwadau defnyddiol ac arfarnol o arferion addysgu a dysgu. Mae rheolwyr y coleg yn defnyddio data meincnodi'n dda i fesur sut mae cyrsiau'n perfformio o gymharu â cholegau eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r coleg yn defnyddio system i fesur y cynnydd a wna dysgwyr mewn pynciau A2 ac UG a chyrsiau eraill Lefel 3 mewn perthynas â'u mannau cychwyn.

Mae adroddiad hunanasesu'r coleg yn gynhwysfawr, ac mae rheolwyr yn ei lunio ar ôl ymgynghori'n fanwl â staff. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad bob amser yn dadansoddi ac yn arfarnu'r ffactorau sy'n arwain at danberfformio yn ddigon da. Mae'r cynllun datblygu ansawdd yn ddogfen ddefnyddiol iawn ac yn gwneud defnydd da o ddata i osod targedau ar gyfer gwella.

Mae'r coleg wedi cyflwyno strategaeth glir ar gyfer ysgogi gwelliannau mewn cyrsiau sy'n tanberfformio (RISP). Mae'r strategaeth hon yn nodi tanberfformio ac yn rhoi cymorth priodol i dimau cyrsiau er mwyn gwella. Mae'r rhaglen wedi cael ei hymgorffori'n dda yng ngweithgareddau gwella ansawdd y coleg. Yn ychwanegol, mae'r coleg wedi dechrau rhoi system gynlluniedig ar waith i nodi a rhannu arfer dda, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu ac asesu. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y mentrau hyn wrth ysgogi gwelliant mewn safonau a deilliannau.

At ei gilydd, mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da wrth weithredu'r holl argymhellion yn yr adroddiad arolygu diwethaf sydd wedi parhau i fod yn berthnasol.

Mae gan y coleg raglen gynhwysfawr ar gyfer datblygu staff y coleg cyfan ar chwe diwrnod yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhaglen yn ymdrin â thestunau defnyddiol a pherthnasol sy'n helpu pob aelod o staff i ddilyn hynt a helynt datblygiadau'r coleg yn ogystal â dysgu ynglŷn â sut i wella arfer bresennol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r coleg yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid a sefydliadau lleol i wella dewisiadau dysgwyr ledled Ceredigion.

Mae'r coleg wedi arwain datblygiad Partneriaeth Emlyn Coleg Aberteifi (BECA) gyda dwy ysgol yn ne'r sir i wella darpariaeth 14-16 yn yr ardal. Mae hon yn bartneriaeth gref sy'n datblygu gyda lefel uchel o ymddiriedaeth rhwng partneriaid. Mae gan y bartneriaeth strwythur llywodraethu cadarn, sy'n cynnwys bwrdd llywodraethu, bwrdd strategol a bwrdd gweithredol. Mae wedi datblygu trefniadau ansawdd da ar y cyd, gan gynnwys rhannu arsylwadau gwersi a data ar gynnydd dysgwyr.

Mae'r coleg yn datblygu partneriaeth gref gyda Grŵp Prifysgol y Drindod Dewi Sant/Prifysgol Fetropolitan Abertawe. Nod y fenter hon yw gwella cynllunio strategol ar draws partneriaeth ranbarthol, cyflwyno dull rhanbarthol o gynllunio'r cwricwlwm a mwy o gyfleoedd dilyniant ar gyfer dysgwyr. Mae'r pennaeth ar fwrdd senedd y Brifysgol ac mae'n cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu cyfleoedd dysgu ledled Ceredigion.

Mae'r coleg wedi llofnodi memorandwm dealltwriaeth gydag Ysgol Penglais yn ddiweddar i ddatblygu partneriaeth strategol yn ardal Aberystwyth. Eu nod yw gwella cyfleoedd i ddysgwyr trwy ddarparu cyrsiau Safon Uwch a meysydd galwedigaethol lleiafrifol ar y cyd, fel Peirianneg Cerbydau Modur. Bydd yr ysgol yn rhannu ei harbenigedd mewn cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) gyda'r coleg hefyd.

Mae'r coleg yn parhau i fod yn rhagweithiol o ran cefnogi datblygiadau yn y rhwydweithiau lleol 14-19, gan gynnwys cefnogi ysgolion â'u darpariaeth alwedigaethol. Mae'r pennaeth yn cymryd rôl flaenllaw ar grŵp strategaeth Ceredigion 14-19.

Mae gan y coleg gysylltiadau agos gydag ystod eang o rwydweithiau a busnesau lleol i ddarparu cyfleoedd hyfforddi hyblyg a phrofiad gwaith ar gyfer dysgwyr. Datblygwyd y rhain trwy grwpiau partneriaeth lleol a rhanbarthol fel Menter Aberystwyth, Menter Aberteifi, Canolfan Menter Canolbarth Cymru a Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Ceredigion.

Mae gan y coleg weledigaeth glir a throsolwg strategol o'i drefniadau partneriaeth gyda phartneriaid addysgol. Er bod gan y coleg gysylltiadau cryf gydag ystod eang o bartneriaid nad ydynt yn rhai addysgol, nid oes ganddo'r un dull strategol trylwyr o ymgysylltu â chyflogwyr lleol a mesur effaith ymgysylltu â nhw.

**Rheoli adnoddau: Da**

At ei gilydd, mae'r coleg yn rheoli ei adnoddau'n dda. Mae wedi datblygu ystod o arferion a gweithdrefnau ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol yn effeithiol. Mae gan y coleg gronfa ariannol wrth gefn gref a llif arian cryf. Wrth gynllunio ar lefelau strategol a gweithredol, rhoddir ystyriaeth dda i bwysigrwydd cynllunio'r cwricwlwm a chostau ariannol. Caiff cyllidebau eu dirprwyo'n briodol a'u monitro'n effeithiol i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael yr adnoddau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r coleg wedi cynhyrchu gwargedau ariannol a chronfeydd wrth gefn yn unol â'i amcanion strategol. Mae'n defnyddio'r cyllid hwn yn dda ar y cyfan i wella'r ystâd ac uwchraddio adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu. At ei gilydd, mae cynllunio ariannol yn dda ac mae'r coleg yn gosod blaenoriaethau clir ar gyfer dyrannu adnoddau.

Mae'r coleg yn cyflogi nifer briodol o staff profiadol a chymwys gyda'r holl athrawon amser llawn sydd naill ai wedi ennill cymhwyster addysgu cydnabyddedig neu'n gweithio tuag at un. Mae'r coleg wedi datblygu a gwella'i weithdrefnau ar gyfer monitro perfformiad ei staff. Mae'r datblygiad hwn yn golygu y gall rheolwyr dargedu ymyriadau yn well a chymorth ar gyfer staff sy'n tanberfformio. Caiff pob aelod o staff amser llawn werthusiadau blynyddol fel rhan o'u hadolygiad perfformiad. Mae rhaglen datblygu staff y coleg yn cynnwys ystod eang o weithgareddau datblygiad staff parhaus (DPP) gorfodol ac unigol. Fodd bynnag, ni fu'r gweithgareddau DPP yn ddigon effeithiol o ran gwella addysgu a dysgu ym mhob maes rhaglen.

At ei gilydd, mae'r coleg yn rheoli ei adnoddau'n dda. Mae'n rheoli ei gyllid, ei staff a'i adnoddau dysgu yn dda i gyflawni ei flaenoriaethau addysgol. Mae'n darparu safonau da o adeiladau ac adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu.

Mae gan y coleg strategaeth ystadau fanwl.  Mae'r strategaeth hon yn cynnwys cynlluniau i wella'r adeiladau yn Aberteifi yn sylweddol fel ei fod yn cyrraedd yr un safon â holl adeiladau eraill y coleg.

At ei gilydd, mae'r coleg yn rheoli ei gyllid yn dda ac yn blaenoriaethu'r adnoddau sydd ar gael er lles dysgwyr.  Mae'r coleg yn gwneud defnydd da o'r cyllid a gaiff. Mae'n cynhyrchu gwargedau bach bob blwyddyn ac yn buddsoddi'r rhain yn dda i wella profiadau dysgwyr.  Er bod y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr ac ansawdd yr addysgu yn ddigonol, mae'r tîm rheoli newydd wedi gwneud cynnydd wrth wella'r meysydd hyn yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r rhagolygon gwella yn dda.  Mae'r coleg yn defnyddio'i gyllid cyfyngedig yn dda i ddatblygu'r cwricwlwm a darparu adnoddau da ar gyfer dysgu.  Mae'r coleg yn rhoi gwerth da am arian er budd ei ddysgwyr.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Mae'r holiaduron i ddysgwyr a lenwyd cyn yr arolygiad yn dangos bod bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau eu dysgu yn y coleg ac yn teimlo'n rhydd oddi wrth aflonyddwch yn y coleg ac yn ystod eu lleoliad gwaith. Mae tua 89% o ddysgwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod eu dysgu wedi eu helpu i wella eu hagwedd at gadw'n iach a diogel. Byddai bron pob un o'r dysgwyr yn argymell y coleg wrth bobl eraill. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi cael gwybodaeth dda gan y coleg wrth ddewis eu rhaglen ddysgu. Mae cyfran debyg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y coleg wedi rhoi cyngor da ynglŷn â'r hyn y gallant ei wneud pan fyddant yn gorffen eu rhaglen ddysgu. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod staff wedi eu helpu yn ystod yr wythnosau cyntaf yn y coleg a bod eu tiwtoriaid personol yn rhoi cymorth personol da iddynt. Yn yr un modd, mae bron pob un o'r dysgwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod staff yn rhoi cyfleoedd dysgu a chymorth iddynt yn Gymraeg a/neu Saesneg yn unol â'u dewis.

## Atodiad 2

Fe wnaeth y cyfraddau cwblhau wella o 81% yn 2009-2010 i 85% yn 2010-2011. Yn yr un cyfnod, fe wnaeth y cymharydd cenedlaethol wella o 87% i 89%. Arhosodd y cyfraddau llwyddiant ar gyfer yr un cyfnod yn 93% ac arhosodd y cymharydd cenedlaethol yn 89%. Fe wnaeth y cyfraddau llwyddiant wella o 77% yn 2009-2010 i 79% yn 2010-2011. Fe wnaeth y cymharydd cenedlaethol ar gyfer cyfraddau llwyddiant wella o 78% i 79% dros yr un cyfnod. Mae hyn yn gosod y coleg yn y 14eg safle o'r 22 goleg yng Nghymru ar gyfer cwblhau'n llwyddiannus, ond yn chweched o'r 22 goleg yng Nghymru ar gyfer cyrhaeddiad yn 2010-2011.

Mae data'r coleg heb ei gyhoeddi (o bwynt rhewi Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar 04/02/2013) ar gyfer set ddata 2011-2012 yn dangos bod y duedd ar i fyny wedi parhau, gyda'r gyfradd cwblhau cyffredinol yn 90%, y gyfradd cyrhaeddiad cyffredinol yn 92% a'r gyfradd llwyddiant cyffredinol yn 82%. O'r 18 maes dysgu, mae 12 wedi dangos gwelliant yn eu cyfraddau llwyddiant o gymharu â data 2010-2011, ac mae chwech wedi dirywio. Mae'r 12 maes dysgu sydd wedi gwella yn cynrychioli 83% o holl ddarpariaeth y coleg. Nid yw'r cymaryddion cenedlaethol ar gyfer 2011-2012 wedi'u cyhoeddi eto.

Yn 2010-2011, fe wnaeth y cyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer cyrsiau hir amrywio ar draws pob maes dysgu. Roeddent yn dda mewn saith maes dysgu, yn ddigonol mewn wyth maes dysgu ac yn anfoddhaol mewn tri maes dysgu o'u cymharu â'r rhai mewn colegau eraill yng Nghymru. Roedd y cyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer cyrsiau hir ar lefel Mynediad a lefel 1 yn dda yn 2010-2011 ac yn ddigonol ar lefel 2 a lefel 3 o gymharu â'r rhai mewn colegau eraill yng Nghymru.

Fe wnaeth cyfraddau cwblhau Medrau Allweddol / Medrau Hanfodol wella o 83% yn 2009-2010 i 84% yn 2010-2011, ond fe wnaeth y cyfraddau cwblhau ar gyfer pob coleg yng Nghymru ostwng o 89% i 88%. Dros yr un cyfnod, fe wnaeth y cyfraddau cyrhaeddiad wella o 78% i 84% wrth i'r cyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer pob coleg yng Nghymru ddisgyn o 90% i 89%. Fe wnaeth cyfraddau llwyddiant ar gyfer Medrau Allweddol / Medrau Hanfodol wella o 64% i 70% dros yr un cyfnod ac fe wnaeth y cyfraddau cwblhau llwyddiannus ar gyfer pob coleg yng Nghymru aros yn 79%. Mae data'r coleg heb ei gyhoeddi ar gyfer 2011-2012 yn dangos cyfraddau llwyddiant yn 73% ar gyfer lefel 1, 81% ar gyfer lefel 2 a 69% ar gyfer lefel 3.

Mae cyflawni deilliannau â gradd mewn cymwysterau BTEC ar gyfer 2011-2012 yn dangos bod 24% o ddysgwyr wedi cyflawni Rhagoriaeth, 39% wedi cyflawni Teilyngdod a 37% wedi cyflawni graddau Pasio.

Mewn pynciau A2 yn 2011-2012, fe wnaeth yr holl ddysgwyr gyflawni A*-E mewn Celf a Dylunio. Roedd cyflawni graddau A*-E yn y pum pwnc A2 arall yn amrywio o 67% i 90%, er bod nifer y dysgwyr a safodd y rhain yn fychan. Mewn pynciau AS yn 2011-2012, fe wnaeth canran y dysgwyr a gyflawnodd raddau A*-E amrywio o 100% mewn Celf a Dylunio i 71% yn y pum pwnc arall.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Collins | Arolygydd Cofnodol |
| Stephen Davies | Arolygydd Tîm |
| Eleanor Davies | Arolygydd Tîm |
| Gill Sims | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Bernard Hayward | Arolygydd Tîm |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Sharon James | Arolygydd Tîm |
| Geraint Havard Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Margaret Joan Siddle | Arolygydd Cymheiriaid |
| Robert Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Delyth Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhianwen Edwards | Arolygydd Cymheiriaid |
| Theresa Jones | Enwebai’r Darparwr |